**Eitem Rhif 11 ar y Rhaglen**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Chwefror 2012** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Amserlen ar gyfer Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau 2012/2013** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ac amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, pwyllgorau craffu a phwyllgorau eraill y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2012/2013.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad?

Mae angen nawr i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2012/13 i alluogi trefnu'r ystafelloedd angenrheidiol, i roddi cyhoeddusrwydd i'r amserlen ac i baratoi dyddiadur yr Aelodau. Ynghlwm fel Atodiad 1 mae atodlen o gyfarfodydd i'r Aelodau ei hystyried.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2012 / 2013 fel y manylir yn atodiad 1.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 <u>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</u>

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyflwyno gofyniad am Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a'i rôl fydd:

- Dynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Cyflwyno o leiaf adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod.

Mae angen i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

4.2 <u>Pwyllgor Archwilio</u>

Mae'r Mesur hefyd yn gofyn i gynghorau gael Pwyllgor Archwilio a fydd:

- Yn adolygu materion ariannol yr awdurdod
- Yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer archwilio mewnol ac allanol a rheoli risg
- Yn cyfrannu tuag at drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.

Mae angen i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r amserlen sydd ynghlwm yn cynnwys dau gyfarfod ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ac un ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Cynhwysir y rhain i sicrhau bod lle yn yr amserlen ar gyfer y pwyllgorau hynny. Dylid nodi nad yw trefniadau Sir Ddinbych ar gyfer y pwyllgorau hyn wedi eu pennu eto ac mae'r arweiniad statudol ar ffurf ddrafft o hyd. Serch hynny, mae gan rolau'r Pwyllgor Archwilio nodweddion cyffelyb iawn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol presennol a gellid cymryd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd hefyd o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Caiff trefniadau'r Cyngor ar gyfer y pwyllgorau hyn eu harwain gan yr arweiniad statudol ffurfiol ar ôl y cyfnod ymgynghori presennol. Dylid nodi bod yr adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chytuno amserlen gyffredinol o gyfarfodydd er mwyn medru gwneud y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd.

4.3 Amseru Cyfarfodydd

Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru roddi arweiniad i awdurdodau ynglŷn â phryd y dylid cynnal cyfarfodydd. Mae'r arweiniad drafft ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd hyn ar ffurf argymell bod cynghorau yn holi eu cynghorwyr, o leiaf unwaith y tymor, ac yn fwyaf dymunol ar ôl ethol cyngor newydd, i weld os yw cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos yn fwyaf derbyniol, neu os oes amserau penodol sy'n achosi problemau.

Gallai cynghorau benderfynu amrywio amserau cyfarfodydd, ac yn achos Sir Ddinbych ar gyfer Craffu, gallai un o'r pwyllgorau gyfarfod yn y bore, un yn y prynhawn, ac un gyda'r nos.

Yn unol â'r arweiniad a ddisgwylir, bydd y Cyngor yn holi ei aelodau ar ôl yr etholiadau ym mis Mai.

4.4 Arweinad Statudol Drafft

Gellir gweld gwybodaeth bellach ar oblygiadau'r Mesur a'r arweiniad statudol drafft (daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Mawrth 2012) gan Lywodraeth Cymru yn:

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/statguidelgmeasure/?lang=en

4.5 Yr Amserlen

Ar ôl cymeradwyo'r amserlen, caiff y lleoliadau eu cadarnhau a bydd yr wybodaeth yn cael ei dodi ar y wefan, ac yn nyddiadur electronig yr Aelodau. Efallai y bydd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y pwyntiau canlynol:

- Mae gwyliau'r ysgol bron iawn wedi eu hosgoi yn llwyr.
- Yn unol â'r cais gan Arweinwyr Grwpiau, nid oes cyfarfodydd wedi eu dodi yn y dyddiadur yn ystod cyfnod y Sioe Frenhinol, 23-26 Gorffennaf 2012.
- Nodwyd dau ddyddiad wrth gefn ar gyfer y Cyngor llawn rhag ofn y bydd angen cyfarfodydd ychwanegol. Y dyddiadau hynny yw 12 Mehefin a 9 Hydref 2012.
- Cynhwyswyd pum sesiwn Briffio'r Cyngor, i'w cynnal ar ddydd Llun.
- Cynhelir etholiadau'r Cyngor ar 3 Mai 2012. Bydd ymarferoldeb y cyfarfodydd cynharaf ar ôl yr etholiad yn dibynnu ar ffurfio'r Cyngor newydd yn grwpiau, a dyrannu aelodau i bwyllgorau yn amserol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y cyfarfodydd yn yr amserlen yn cyfrannu tuag at agweddau datblygu, gweithredu a monitro'r blaenoriaethau corfforaethol

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Mae costau cynnal rhaglen o gyfarfodydd yn cynnwys costau argraffu a phostio (y gellid eu lleihau yn sylweddol gan flaengareddau TGCh ar gyfer y Cyngor newydd), costau TG, amser swyddogion o ran cefnogi pwyllgorau a phaneli (ymchwil, ysgrifennu adroddiadau, rhoi cyngor a mynychu cyfarfodydd), cyflogau uwch i gynghorwyr gyda chyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd, costau ystafelloedd cyfarfod a lluniaeth.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

Ymgynghorwyd ag Uwch Dîm Arwain y Cyngor a'r swyddogion sy'n gweithio gyda phwyllgorau a phanelau a ddangosir yn yr atodiad, i sicrhau bod rhaglen gyfarfodydd ymarferol wedi ei chynhyrchu.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

I'w adrodd yn y cyfarfod.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd trefniadau gweinyddol i gefnogi'r cyfarfodydd yn yr atodiad yn cychwyn ar unwaith i osgoi'r risg y gallai oedi ei achosi i drefnu lleoliadau cyfarfod addas a sicrhau bod yr amserlen ar gael i aelodau a swyddogion er mwyn iddynt roddi'r manylion yn eu dyddiaduron.

**10. Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**AMSERLEN PWYLLGOR 2012 / 2013**

| Pwyllgor | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR SIR**<br>**10 a.m.** | 15<br>(Cyfarfod Blynyddol) | _12*_ | 10 | | 11 | _9*_ | 6 | 4 | 8 | 5<br>26 | | 9 | 7<br>(Cyfarfod Blynyddol) |
| **BRIFFIO'R CYNGOR**<br>**2 p.m.** | | 25 | | | | 15 | | | 21 | | 11 | 22 | |
| **CABINET**<br>**10 a.m.** | _22_ | 19 | 17 | | 4<br>25 | 23 | 20 | 18 | 15 | 19 | 19 | 16 | 14 |
| **BRIFFIO'R CABINET**<br>**2p.m. oni nodir fel arall** | | 6<br>(10am) | 2 | | 10** | 1 | 5 | 3 | 7 | 4 | 4 | 8 | |
| **CYNLLUNIO**<br>**9.30 a.m.** | _30***_ | 20 | 18 | | 19 | 17 | 21 | 19 | 23 | 20 | 20 | 17 | 15 |
| **CRAFFU PERFFORMIAD**<br>**9.30 a.m.** | | 28 | | | 6 | 18 | 29 | | 10 | 21 | | 11 | 23 |
| **CRAFFU CYMUNEDAU**<br>**9.30 a.m.** | | 14 | 16<br>(Llun) | | 13 | 25 | | 6 | 17 | 28 | | 18 | |
| **CRAFFU PARTNERIAETHAU**<br>**9.30 a.m.** | _31_[1] | | 12 | | 27 | | 8 | 20 | 31 | | 14 | 25 | |
| **LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** | | 13 | 11 | | 5 | | 14 | | | 27 | | 10 | 22 |

[1] Efallai y bydd cyfarfodydd mewn llythrennau italig yn ystod Mai 2012 yn cael eu heffeithio gan yr etholiadau llywodraeth leol sy'n cael eu cynnal ar 3 Mai 2012

| Pwyllgor | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **9.30 a.m.** | | | | | | | | | | | | | |

| Pwyllgor | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **TRWYDDEDU 10 a.m.** | | 27 | | | 12 | | | 5 | | | 6 | | |
| **CBYLl 2.p.m.** | | | 4 | | | 10 | | | 16 | | | 24 | |
| **IECHYD, DIOGELWCH A LLES CORFFORAETHOL 10 a.m.** | | 15 | | | 21 | | | 14 | | | 15 | | |
| **CYSAG 10 a.m. (oni nodir fel arall)** | | 29 (2 p.m.) | | | | 5 | | | | 1 | | | |
| **SAFONAU 10 a.m.** | | 1 | 13 | | 7 | 19 | 30 | | 11 | 22 | | 12 | |
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 10 a.m.** | | | | | | | | 13 | | | | | |
| **PWYLLGOR ARCHWILIO 9.30 a.m.** | | | | | 26 | | | | 9 | | | | |
| **PANEL MAETHU 9.30 a.m.** | 2 | 13 | 11 | 15 | 12 | 10 | 14 | 12 | Dyddiadau i'w cytuno gan y Panel | | | | |
| **CYD-BANEL MABWYSIADU 9.30 a.m.** | 25 | 22 | 27 | 24 | 28 | 26 | 23 | 21 | Dyddiadau i'w cytuno gan y Panel | | | | |

* Cyngor Llawn. Mae 12 Mehefin a 9 Hydref 2012 ond wedi eu neilltuo rhag ofn bod angen cyfarfodydd ychwanegol y Cyngor.

**Mae cyfarfod er mwyn Briffio’r Cabinet wedi ei drefnu ar gyfer 3 Medi ar hyn o bryd. Mae’r opsiynau’n cynnwys symud cyfarfod Briffio’r Cabinet i 28 Awst (gwyliau’r ysgol / egwyl) neu i’r 10 Medi fel y dangosir ar yr amserlen hon.

*** Roedd cyfarfod Cynllunio wedi ei drefnu dros dro ar 16 Mau yn yr Amserlen gyfarfodydd ddiwethaf (yn amodol ar gadarnhau dyddiad etholiadau’r Cyngor. Ni fydd y cyfarfod hwnnw yn ymarferol. Dyddiad amgen ar gyfer cyfarfod Mai yw 30ain Mai.)